| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 5/7/2022 | | **Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Llinos Edwards, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts<br><br>Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)<br><br>Ymddiheuriadau: Huw Antur ac Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd). | Mynwentydd: Holwyd sawl un am bris ar gyfer torri gwair mynwent yr Eglwys a derbyniodd y Cyngor yr unig bris a ddaeth i law.<br><br>Cytunwyd i symud ymlaen i drwsio ciosg Pennantlliw.<br><br>Ystyriwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a diolchwyd i'r SAC nad oedd unrhyw fater a oedd angen sylw pellach wedi ei godi gan yr Archwilydd Mewnol.<br>Ystyriwyd y Ffurflen Flynyddol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Nodiadau Datgelu Ychwanegol.<br>Cytunwyd i'r Cadeirydd arwyddo'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn 2021-22 ar ran y Cyngor a chytunwyd i'w chyflwyno i sylw'r Archwilydd Allanol.<br>Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.<br><br>Parc Cenedlaethol Eryri: **NP5/71/269** Ail-strwythuro ac uwchraddio 15 o leiniau unedau teithiol presennol i gynllun tirlunio dwysedd is Bwch yn Uchaf, Llanuwchllyn. LL23 7DD<br>Nododd y Cynghorwyr amwysedd rhwng y naratif a'r deiagram a chytunwyd i dynnu sylw Parc Cenedlaethol Eryri <u>nad yw'r cais yn un dilys.</u><br>Mynegwyd pryder am y traffig presennol ar hyd Tŷ'n Ddol (Station Road), a bod y cais hwn yn ceisio ehangu ar yr hyn sydd yn bodoli'n gyfreithiol o ran CL.<br><br>Grŵp Cynefin: Adroddiad Anghenion Tai Llanuwchllyn (e-bostiwyd 20/6/22).<br>Cytunwyd i ddiolch am yr Adroddiad ond i fynegi siom nad oes atebion nac awgrymiadau am y ffordd ymlaen.<br><br>Llythyr am gyfyngu cyflymder wrth y ffatri yn Rhydymain - cytunwyd i gefnogi'r cais oddi wrth Gyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Triathlon Cytunwyd i roi un cyfle arall i’r achlysur brofi ei hun yn llwyddiannus o ran trigolion Llanuwchllyn.<br><br>Awdurdodwyd gwariant ar symud y giât wrth Lwybr Cei – AMR i gysylltu. Nodwyd bod angen torri’r mieri wrth y llecyn hanner ffordd fyny’r llwybr. |